Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru
Glan Road
Aberdâr
Rhondda Cynon Taf
CF44 8BW

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru

Mae Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru yn ysgol gyfun cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 18 oed yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn Aberdâr.

Mae 968 o ddisgyblion ar y gofrestr, o gymharu â 1,014 o ddisgyblion adeg yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2014. Mae 157 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth o gymharu â 234 adeg yr arolygiad diwethaf.

Mae tua 12% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4% ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Mae gan tuag 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, o gymharu â 2.2% ar gyfer Cymru gyfan. Mae gan tua 22% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn fymryn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae llai nag 1% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Bu'r pennaeth yn y swydd er 2006. Mae'r uwch dîm reoli hefyd yn cynnwys dirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol ac un pennaeth cynorthwyol dros dro.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru yn gymuned ddysgu hapus, gynhwysol a brwdfrydig dros ben. Mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu ac maent yn falch o'u hysgol. Gwna llawer ohonynt gynnydd cryf yn eu gwersi, a bu perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn gryf iawn dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion ac yn eu hadnabod yn dda. Maent yn sefydlu arferion effeithiol sy'n helpu disgyblion i fod yn barod i ddysgu.

Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel sy'n cyfrannu'n sylweddol at y safonau eithriadol o ran lles disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â rhieni i sicrhau bod eu cyngor yn cael ei geisio a'u bod yn cael gwybodaeth drylwyr am gynnydd eu plant.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sef darparu addysg o ansawdd uchel i ddisgyblion mewn amgylchedd Cristnogol gofalgar a chefnogol. Mae arweinwyr yn ymroi i wella'n barhaus, ac maent yn adolygu a gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth da ac yn gweithio'n effeithiol i greu amgylchedd dysgu cynnes a chroesawgar, gyda phwyslais penodol ar ddeall a pharchu pobl eraill.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau a chynnydd mewn medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, yn enwedig y lleiafrif sy'n parhau i wneud gwallau sylfaenol yn eu hysgrifennu ac sy'n cael trafferth â'u medrau rhif sylfaenol

A2 Cryfhau'r addysgu mewn lleiafrif o wersi a gwella effaith adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag ymgysylltu â rhieni, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mewn gwersi, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd cryf o ran datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn dda, fel y ffactorau sy'n effeithio ar adwaith magnesiwm ac asid hydroclorig mewn gwyddoniaeth. Mae mwyafrif ohonynt yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn effeithiol mewn cyd-destunau mwy heriol, er enghraifft wrth ddefnyddio eu gwybodaeth am theorem Pythagoras i nodi trionglau ongl sgwâr. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ac yn astud ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Maent yn ymateb yn feddylgar i gyfraniadau pobl eraill ac yn dilyn cyfarwyddiadau athrawon yn union.

Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau dosbarth ac yn ateb cwestiynau athrawon yn dda. Maent yn siarad yn glir ac yn hyderus, ac yn defnyddio geirfa synhwyrol, ac sy'n aml yn fwy soffistigedig, yn briodol. Mae lleiafrif ohonynt yn cyfrannu'n dda at drafodaethau, er enghraifft ar effaith cynhyrchu olew palmwydd ar goedwigoedd glaw, cynefinoedd a bywyd gwyllt. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o ddisgyblion lawer o hyder yn eu medrau llafar, ac maent yn cynnig atebion byr, nad ydynt wedi eu datblygu'n ddigonol.

Wrth ddarllen ar goedd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud hynny'n hyderus, yn amrywio eu goslef ac yn darllen yn rhugl. Mae llawer ohonynt yn cipddarllen testunau'n addas i ddod o hyd i wybodaeth am grefyddau gwahanol ac i nodi peryglon cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon. Maent yn defnyddio eu medrau ymchwil yn dda ac yn darllen ystod o destunau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bynciau, er enghraifft wrth nodi a chymharu manteisio bwydo â photel a bwydo o'r fron mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae lleiafrif ohonynt yn dod i gasgliad yn addas, er enghraifft wrth archwilio sut mae gwrthdaro'n ffurfio'r cymeriadau yn y llyfr 'Heroes'.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu at ystod addas o ddibenion ac, yn gyffredinol, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o naws a chynulleidfa. Mae'r mwyafrif ohonynt yn llunio gwaith ysgrifennu sydd wedi ei strwythuro'n dda ac yn amrywio eu defnydd o iaith yn effeithiol i ennyn diddordeb y gynulleidfa. Maent yn defnyddio ystod gynhwysfawr o eirfa a therminoleg sy'n benodol i'r pwnc yn hyderus, er enghraifft wrth rannu eu safbwyntiau ar ryfel a phropaganda mewn hanes. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gwallau sylfaenol cyson, yn cael trafferth strwythuro a pharagraffu eu hysgrifennu, ac nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros brawfdarllen eu gwaith cyn ei gyflwyno.

Gwna llawer o ddisgyblion ddefnydd effeithiol o'u medrau rhifedd sylfaenol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o fesur. Mae llawer ohonynt yn llunio graffiau llinell a siartiau bar yn gywir, a gallant echdynnu gwybodaeth sylfaenol o'r graffiau hyn, er enghraifft wrth ystyried y newidiadau i siwgr gwaed yn y corff dynol yn ystod y dydd. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion amgyffrediad cryf o'r pedair rheol rhif, ac maent yn eu defnyddio'n dda i ganfod canrannau, degolion a ffracsiynau. Maent yn defnyddio

medrau cyfrifo yn dda, er enghraifft wrth ddod o hyd i'r dibrisiad yng ngwerth car dros amser. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r disgyblion yn cael trafferth â'u medrau rhif sylfaenol ac nid ydynt yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol mewn pynciau gwahanol. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio'r medrau hyn i gydweithio â'u cyfoedion, er enghraifft wrth gydweithio ar ymchwiliadau mewn gwyddoniaeth. Mewn ychydig o bynciau, mae rhai disgyblion yn defnyddio uwch fedrau TGCh, fel defnyddio meddalwedd i greu dyluniadau ar raddfa.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn dangos medrau perfformio cryf, gan gynnwys cyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth gan ddefnyddio ystod o offerynnau. Mewn celf, mae disgyblion yn llunio gwaith celf diddorol a dychmygus, fel creu patrymau a mygydau wrth ystyried gŵyl Fecsicanaidd 'Diwrnod y Meirw'. Mae disgyblion eraill hefyd yn cyfuno datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn dda, er enghraifft trwy ddangos ymddaliad, stamina a rhythm da wrth berfformio dawnsiau a goreograffwyd ganddynt.

Yn 2019, cofrestrodd bron pob un o'r disgyblion ar gyfer cymhwyster yn y Gymraeg, a chyflawnodd y mwyafrif ohonynt gymhwyster lefel 2. Mewn gwersi, gwna mwyafrif y disgyblion gynnydd addas o ran datblygu eu medrau Cymraeg, ac mae llawer ohonynt yn llunio darnau ysgrifenedig wedi'u strwythuro'n dda, fel blog am gyrchfannau gwyliau neu wrth rannu eu barn am raglenni teledu. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos ynganiad da yn y Gymraeg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae disgyblion wedi perfformio'n dda ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ac wedi gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl. Mae perfformiad yn 2019 uwchlaw'r disgwyliadau ym mhob dangosydd. Mae bron pob disgybl yn cwblhau cymhwyster y dystysgrif her sgiliau. Yn gyffredinol, mae perfformiad pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn cymharu'n dda â pherfformiad eu cymheiriaid mewn ysgolion tebyg. Gwna disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gynnydd cryf. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yn 2019, gwellodd cyfran y disgyblion chweched dosbarth a enillodd 3 gradd A*-C a 3 gradd A*-A mewn Safon Uwch neu gymhwyster cyfwerth. Dros y tair blynedd diwethaf, bu perfformiad yn y dangosyddion hyn yn gyffredinol debyg i berfformiad ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, gwna disgyblion yn y chweched dosbarth gynnydd tebyg i ddisgyblion mewn mannau eraill â lefelau tebyg o gyrhaeddiad blaenorol. Mae cyfran y disgyblion sy'n cwblhau eu cyrsiau yn gyffredinol unol â'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau dysgu. Maent yn elwa'n sylweddol ar yr ethos pwyllog, pwrpasol a gofalgar sy'n treiddio drwy gymuned yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn dangos safonau ymddygiad arbennig o uchel mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Wrth symud rhwng dosbarthiadau, mae disgyblion yn ymddwyn yn drefnus ac yn bwrpasol. Maent yn foesgar, yn barchus ac yn gwrtais dros ben tuag at ei gilydd, eu hathrawon ac unrhyw ymwelwyr. Mae disgyblion yn mwynhau eu haddysg ac yn meithrin perthynas waith gref â'u cyfoedion a staff addysgu.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn a manwl o'r ystod o gymorth ac arweiniad sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn cael effaith fuddiol dros ben ar eu lles a'u dysgu. Mae bron pob disgybl yn hyderus bod yr ysgol yn ymdrin yn brydlon ac yn gymesur ag unrhyw achosion o fwlio sy'n digwydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn barod i ddysgu. Maent yn tawelu'n gyflym ac yn dangos agweddau arbennig o gadarnhaol at ddysgu. Mae llawer ohonynt yn gwrando'n ofalus ac yn barchus ar eu hathrawon, ac yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u dysgu. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn dangos gwydnwch a brwdfrydedd wrth ymgymryd â thasgau heriol. Mae disgyblion yn gweithio mewn parau a grwpiau bach, yn rhannu syniadau ac yn cynorthwyo ei gilydd yn arbennig o dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu lles corfforol a meddyliol. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod gynhwysfawr o chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael yn yr ysgol, gan gynnwys sesiynau corfforol Activ8, y côr a'r clwb ysgrifenwyr.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at Senedd yr ysgol a phwyllgorau a grwpiau eraill. Maent wedi trefnu ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys llunio fideo gwrthfwlio o ansawdd uchel ac ymgymryd ag ystod o weithgareddau elusennol. Maent yn frwdfrydig dros eu rolau arweinyddiaeth, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn datblygu eu medrau arweinyddiaeth yn dda drwy drefnu digwyddiadau, fel y te i 'hen filwyr'.

Mae lefel presenoldeb disgyblion wedi gwella'n dda dros y tair blynedd diwethaf ac mae uwchlaw presenoldeb ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gref ac maent yn sefydlu arferion buddiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ymdawelu'n gyflym ac yn barod i ddysgu.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei wneud, ac maent yn cynllunio gwersi wedi eu strwythuro'n dda i'w helpu i wneud cynnydd o ran datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Mae'r athrawon hyn yn rhoi esboniadau clir a defnyddiol i ddisgyblion ac yn paratoi adnoddau difyr a diddorol.

Mae ychydig o wersi yn arbennig o effeithiol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn frwdfrydig, mae ganddynt ddisgwyliadau arbennig o uchel ac maent yn gofyn cwestiynau miniog i brocio dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl. Maent yn cynllunio ac yn addasu tasgau'n fedrus i fodloni anghenion pob disgybl. Mae hyn yn annog lefelau uchel o ymgysylltiad ac yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cyflym.

Mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau. Yn aml, maent yn siarad gormod, sy'n cyfyngu ar ymgysylltiad disgyblion a chyfleoedd iddynt weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach. Mewn ychydig o wersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol ar adegau addas yn ystod y wers. Fodd bynnag, nid yw sylwadau lleiafrif o athrawon yn ddigon penodol i sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i wella eu gwaith. At ei gilydd, mae effaith asesu ac adborth i ddisgyblion yn rhy amrywiol o fewn pynciau ac ar eu traws.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar waith i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mewn rhifedd, mae’r gwaith hwn yn cael ei gyfoethogi drwy adnoddau digidol o ansawdd uchel, fel fideos pwrpasol i fodelu prosesau cyfrifo a chynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau ymresymu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn cynllunio’n ddigon manwl i helpu disgyblion i wneud cynnydd o ran defnyddio eu medrau neu fireinio a datblygu’r medrau hyn yn annibynnol.

Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o strategaethau cymorth unigol i’r disgyblion hynny â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach. Mae ystod gynhwysfawr o ddata asesu yn cael ei defnyddio i nodi, olrhain a mesur cynnydd y disgyblion hyn o ran datblygu eu medrau.

Mae’r ysgol yn cynllunio ac yn addasu ei chwricwlwm yn ofalus i sicrhau ei bod yn bodloni anghenion pob disgybl. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, datblygiad personol a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i helpu disgyblion i bontio’n rhwydd i Flwyddyn 7 gyda gweithgareddau gwerthfawr i ddisgyblion o Flwyddyn 4 ymlaen. Mae rhaglen yr wythnos opsiynau ym Mlwyddyn 9 yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4. Gall y disgyblion hyn ddewis o ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae’r ysgol yn gweithio’n dda ag ysgolion lleol i ehangu arlwy’r cwricwlwm sydd ar gael i ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â gweithgareddau gwerthfawr i gyfoethogi’r cwricwlwm. Mae’r rhain yn cynnwys ymweliadau addysgol lleol a rhyngwladol i’r Gelli Gandryll ar gyfer yr ŵyl lenyddol, a dinasoedd fel Paris a Bruges, yn ogystal â gweithgareddau chwaraeon a theatr. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn datblygu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn llwyddiannus drwy weithgareddau fel yr eisteddfod flynyddol ac ymweliadau preswyl â Llangrannog a Glan-llyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae Ysgol Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd arbennig o uchel. Mae’n ceisio cyfoethogi bywydau disgyblion drwy ffydd ac addysg o ansawdd uchel mewn amgylchedd Cristnogol gofalgar a chefnogol. Mae hyn yn cyfrannu’n dda iawn at les disgyblion, eu hymddygiad a’u hymgysylltiad rhagorol â dysgu, a’r cynnydd cryf y mae llawer ohonynt yn ei wneud.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn meithrin perthynas bwrpasol â nhw. Mae’r ysgol yn olrhain cynnydd academaidd, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion yn gadarn, sy’n ei galluogi i nodi ac ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i unrhyw berygl o danberfformio. Gwna arweinwyr bugeiliol ac arweinwyr y cwricwlwm ddefnydd buddiol o’r wybodaeth hon i roi cymorth ar waith a monitro ei effaith. O

ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni deilliannau cryf ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae ychydig iawn o achosion o ymddygiad gwael, ac mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn uchel.

Mae trefniadau effeithiol dros ben i adnabod a chynorthwyo'r disgyblion hynny ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r rhai sydd â phroblemau emosiynol, iechyd neu gymdeithasol. Mae systemau ar gyfer atgyfeirio disgyblion ar gyfer cymorth dysgu yn glir ac yn gyson, ac mae'r holl staff yn eu deall yn dda. Mae'r tîm bugeiliol a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn darparu ystod eang o ymyriadau a rhaglenni cymorth sy'n galluogi disgyblion sy'n agored i niwed i wneud cynnydd a chyflawni'n dda. Mae gan yr ysgol berthynas bwrpasol ag ystod eang o asiantaethau allanol ac arbenigol, ac mae'n defnyddio'r rhain yn dda i gryfhau ei threfniadau cymorth. Mae'r cynlluniau addysg unigol sy'n cael eu creu i ddisgyblion sydd angen cymorth yn amlinellu targedau priodol a phenodol i ddisgyblion, ac yn cynnwys strategaethau defnyddiol i staff gynorthwyo'r disgyblion hyn mewn gwersi. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau unigol.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo datblygiad medrau sylfaenol a medrau bywyd disgyblion yn dda, ac yn eu galluogi i fagu hyder a gwydnwch i ddyfalbarhau pan fyddant yn wynebu heriau. Yn benodol, mae'r ysgol yn adnabod yn fedrus y disgyblion hynny sy'n mewn perygl o ymddieithrio, ac yn cynllunio rhaglen unigol i'w cynorthwyo nhw a'u teuluoedd yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu a lefelau uchel o ymgysylltiad.

Nodwedd ragorol yw'r ffordd y mae'r ysgol a'r gymuned ehangach yn cydweithio â'i gilydd i gynorthwyo datblygiad personol disgyblion. Mae eu cymorth i'r disgyblion mwyaf agored i niwed a'r rhai ag AAA ar adegau pontio yn gryfder penodol. Mae'r ymweliadau rheolaidd ac amserol, a chymorth sensitif, yn galluogi'r disgyblion hyn i ymgartrefu'n gyflym yn eu hysgol newydd a symud ymlaen yn llwyddiannus yn eu dysgu.

Mae perthynas waith yr ysgol â rhieni yn gwneud cyfraniad nodedig at les eithriadol disgyblion. Trwy raglen reolaidd o gyfarfodydd cymorth, mentora a chyfathrebu manwl, mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd a lles eu plant. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol hyn yn helpu'r ysgol i fod â dealltwriaeth dda o anghenion rhieni, ac yn galluogi staff i gynllunio a strwythuro rhaglenni cymorth unigol yn effeithiol. O ganlyniad, gall yr ysgol ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon sydd gan rieni. Mae rhieni'n cael cymorth rheolaidd gan yr ysgol i nodi'r ffyrdd gorau iddynt gynorthwyo eu plant gartref. Mae'r berthynas bwrpasol hon â disgyblion a'u rhieni yn eu galluogi i deimlo eu bod yn aelodau gwerthfawr o gymuned ysgol sy'n cofleidio amrywiaeth ac yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr.

Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus o ran datblygu gwerthoedd ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion, sy'n hanfodol i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae gwasanaethau ysgol gyfan, cyfnodau tiwtorial a siaradwyr ymweliadol yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o ystod o gefndiroedd a diwylliannau. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion yn llwyddiannus i ddod yn unigolion trugarog sy'n deall ac yn cofleidio amrywiaeth, ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda. Gwna gwasanaethau ysgol gyfraniad pwysig at ddatblygu'r rhinweddau hyn ac maent yn rhoi cyfle pwysig i ddisgyblion fyfyrio, er enghraifft y gwasanaeth diweddar ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn dda, ac mae hyn yn cyfrannu'n addas at ddealltwriaeth disgyblion o sut mae dewisiadau o ran eu ffordd o fyw yn effeithio ar eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys rhaglen Activ8, sy'n cyflwyno disgyblion i weithgareddau newydd ac sydd wedi cynyddu nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd. Mae'r rhaglenni cyfoethogi a'r gweithgareddau allgyrsiol amrywiol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth â thîm ymgysylltu a chyfranogiad ieuenctid yr awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth hon, ac mae cyfleoedd ychwanegol yn amrywio o grochenyddiaeth i ddatblygu arweinyddiaeth.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr, sy'n cael ei hategu'n dda gan asiantaethau allanol, yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol ac yn cynorthwyo datblygiad personol disgyblion yn fedrus. Mae'r rhaglen gyrfaoedd strwythuredig sy'n cynnwys diwrnodau blasu, ffeiriau gyrfaoedd, ymweliadau, nosweithiau agored a chyfweliadau yn rhoi cyngor defnyddiol i ddisgyblion a rhieni am ddewisiadau gyrfa posibl, prentisiaethau, addysg bellach ac addysg uwch. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu llwybrau dysgu.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth yn dda. Mae hyn yn cynnwys bod yn rhan o'r cyngor ysgol a gwneud penderfyniadau am fywyd yr ysgol, y wobr arweinwyr ifanc i bob un o ddisgyblion Blwyddyn 7, cynnal parti i hen filwyr ac arwain gwasanaethau'r Cymun.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn cyfrannu'n arbennig o dda at lefelau uchel o les disgyblion a'r cynnydd a wnânt.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sicr a chefnogol. Mae'n uchel ei pharch ymhlith pob aelod o gymuned yr ysgol, a bu'n llwyddiannus o ran meithrin corff staff cydweithredol sydd ag ymroddiad cryf. Ynghyd â'r corff llywodraethol, mae'r pennaeth yn hybu ethos a gwerthoedd cytûn yn llwyddiannus, ynghyd â'r weledigaeth glir i ddarparu addysg o ansawdd uchel mewn amgylchedd gofalgar.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae ffocws clir ar fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, yn benodol drwy wella presenoldeb disgyblion a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae trefniadau rheolaeth linell sydd wedi eu diffinio'n dda i oruchwylio, monitro, cynorthwyo a, lle y bo'n briodol, herio staff i godi safonau, gwella darpariaeth a chynorthwyo lles disgyblion. Mae cyfarfodydd ar bob lefel yn canolbwyntio'n bennaf ac yn briodol ar gynnydd disgyblion, gan nodi'r rhai sy'n tangyflawni a rhoi ymyriadau addas ar waith i'w cynorthwyo i wella.

Mae rhaglen gynhwysfawr o brosesau gwella. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau o'r cwricwlwm bob dwy flynedd a dadansoddiadau cadarn o ddata perfformiad. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu arweinwyr i ennill dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a meysydd perthnasol i'w gwella. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi blaenoriaethau allweddol ac i roi ystod eang o fentrau ysgol-gyfan ac adrannol ar waith i gynorthwyo gwelliant. Yn rhan o broses adolygu'r cwricwlwm, mae arweinwyr yn ymgynghori â disgyblion yn ddefnyddiol i geisio eu barn am ddarpariaeth. Er gwaethaf y cryfderau hyn, nid yw adolygiadau'r cwricwlwm na gwerthusiadau eraill yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar fedrau disgyblion ac ansawdd ac effeithiolrwydd addysgu ac asesu. Mewn ychydig o achosion, nid yw camau arfaethedig yn ddigon manwl ac nid ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu medrau disgyblion a gwella ansawdd addysgu a dysgu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad systematig yn galluogi athrawon i fyfyrio'n fuddiol ar eu harfer ac yn helpu i nodi meysydd perthnasol i'w datblygu. Mae amcanion rheoli perfformiad yn ymwneud yn uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol, yn ogystal â buddiannau proffesiynol athrawon.

Mae ystod fuddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu diwylliant o fyfyrio. Mae staff addysgu a staff cymorth yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ystyried a hybu arfer dda. Mae'r ysgol yn cydweithio'n arbennig o dda ag ysgolion eraill, er enghraifft fel ysgol partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon. Mae pwyslais cryf ar ddosrannu cyfrifoldebau arwain. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr canol gysgodi rolau uwch ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros flaenoriaethau gwella ysgol-gyfan. Mae'r dulliau hyn yn cyfrannu'n dda at gryfhau gallu arweinyddiaeth yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn dangos ymrwymiad cryf i gynorthwyo pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n briodol at bennu cyfeiriad strategol yr ysgol a nodi blaenoriaethau penodol. Maent yn wybodus am waith yr ysgol ac yn cynnig cymorth clir a lefel briodol o her i'r tîm arweinyddiaeth. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n rheolaidd at wasanaethau'r ysgol ac agweddau eraill ar addoli ac, er enghraifft, yn cynorthwyo gwaith yr adran anghenion addysgol arbennig.

Mae llywodraethwyr, ynghyd â'r pennaeth a'r bwrsar, yn rheoli cyllid yr ysgol yn gadarn. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn adolygu rolau a chyfrifoldebau arweinwyr, gofynion staffio a lwfansau'r pen yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus ac yn gost-effeithiol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei hadnoddau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn effeithiol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Er enghraifft, mae staff cymorth tra medrus yn mentora disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i wella eu presenoldeb a chefnogi eu lles. Mae'r dull hwn yn cyfrannu'n dda at y cynnydd y mae'r disgyblion hyn yn ei wneud.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle y bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2020